

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd) Ysbyty Llys Llanarth

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15 Mai 2024
Dyddiad cyhoeddi: 15 Awst 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf.....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Llys Llanarth ar 13, 14 a 15 Mai 2024.

Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Awen - 16 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch canolig i fenywod
- Ward Treowen - 11 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch isel i ddynion
- Ward Deri - 11 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch isel i ddynion
- Ward Teilo - 20 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch isel i ddynion
- Ward Howell - 16 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch canolig i ddynion
- Ward Iddon - 17 o welyau sy'n darparu gwasanaethau diogelwch canolig i ddynion
- Woodlands - 4 gwely sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ysbyty'n cael ei reoli gan The Priory Group.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r cleifion yn ystod ein harolygiad. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd pump gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Gallai'r cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, ac yn ystod yr arolygiad, roedd yn gadarnhaol gweld y staff yn annog ac yn cefnogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd y llyfryn gwybodaeth i gleifion a ddyluniwyd gan un o'r cleifion ar gyfer Ward Iddon yn fanwl iawn ac yn llawn gwybodaeth, ac roedd cynlluniau ar waith i atgynhyrchu'r llyfryn hwn ar bob ward.

Dywedodd rhai cleifion wrthym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â phrydau bwyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni
- Gwelliannau mewn perthynas â phrydau bwyd
- Mae angen glanhau'r ffenestri ar bob ward
- Y décor a'r dodrefn ar ward Woodlands

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gweithgareddau amrywiol i'r cleifion
- Llyfryn gwybodaeth i gleifion
- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys. Roedd tystiolaeth glir wedi'i dogfennu hefyd bod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys gael eu storio mewn man priodol ar Ward Awen
- Polisi rheoli meddyginiaethau wedi'i ddiweddarau yn yr ystafelloedd clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Prosesau diogelu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau archwilio rheolaidd a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty a'r arweinydd clinigol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig.

Cymerodd y staff ran gadarnhaol yn ein harolygiad a gwnaethant ddangos ymrwymiad clir i wella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Swyddi gwag.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty, yr arweinydd clinigol a'r tîm amlddisgyblaethol yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff
- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom bum ymateb i'r holiaduron; mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn.

Gwnaethom hefyd adolygu'r arolygon adborth mewnol gan gleifion i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Nid yw'r bwyd o ansawdd da; dyma ble rwy'n byw ac rwy'n disgwyl cael bwyd o ansawdd da”.

“Roedd y bwyd yn well pan oedd yn cael ei goginio ar y safle”.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd Llys Llanarth yn cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau er mwyn helpu i ddarparu therapiau a gweithgareddau. Gwelsom y cleifion yn yr ysbyty yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Ymhlith y gweithgareddau hyn roedd garddio, gwaith coed a chelf a chreffft, yn ogystal â gweithgareddau yn y gampfa a gweithgareddau awyr agored.

Roedd clwb cymdeithasol ar gael ar y safle a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r cleifion ymgysylltu ac ymlacio gyda'i gilydd y tu hwnt i'r amserlen therapiwtig safonol. Roedd caffi a siop i'r cleifion hefyd ar gael.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty hefyd wedi gweithredu cynllun gwaith â thâl i'r cleifion yn yr ysbyty. Roedd y swyddi yn cynnwys swyddi ailgylchu a garddio ac roedd y cleifion hefyd yn cael cyfleoedd i helpu i redeg siop yr ysbyty. Byddai'r cleifion yn cyflwyno ceisiadau ac yn cael cyfweiliadau am y gwaith â thâl. Roedd hyn yn helpu i roi sgiliau bywyd i'r cleifion er mwyn eu paratoi i fyw'n annibynnol.

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau iechyd corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Nid oedd smygu'n cael ei ganiatáu ar y safle, ond rhoddwyd asesiad risg unigol i'r cleifion er mwyn iddynt allu defnyddio sigarêts electronig (e-sigarêts) mewn rhai rhannau o'r ysbyty.

Urddas a pharch

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogeion, staff wardiau, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i ymdrin ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi, gan ddangos agwedd ymatebol a gofalgarg tuag at y cleifion.

Roedd gan rai o'r cleifion ystafelloedd gwely en-suite a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas, tra bod yn rhaid i gleifion eraill ddefnyddio toiledau a chawodydd cymunedol. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol.

Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws er mwyn osgoi amharu ar y cleifion wrth iddynt gysgu. Yn ystod ein taith o gwmpas yr ysbyty, roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli gweld yn cael eu cadw ar gau oni bai eu bod yn cael eu defnyddio er mwyn amddiffyn preifatrwydd y cleifion wrth i bobl fynd heibio'r ystafelloedd.

Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem bersonol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu pe bai angen, ac roedd dyfeisiau digidol ar gael i'r cleifion eu defnyddio gyda chymorth y staff pan fo angen.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ysbyty yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fel yr amserlen gweithgareddau wythnosol, bwyta'n iach, gwasanaethau eirioli a sut i wneud cwyn neu godi pryder. Roedd canllawiau gwybodaeth hawdd eu deall hefyd ar gael i'r cleifion ar bob ward.

Roedd tystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

Roedd hysbysfyrddau i gleifion ar bob ward a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses 'dywedo chi, gwnaethom ni'. Nid oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar yr hysbysfyrddau ar rai o'r wardiau yn gyfredol, a dylid cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hysbysfyrddau i gleifion yn gyfredol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol.

Roedd ystafelloedd addas ar gael i'r cleifion gwrdd â'r staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd trefniadau ymweld ar waith i'r cleifion gwrdd â ffrindiau a theulu yn yr ysbyty lle y bo'n briodol ac roedd ardal ymweld â phlant ddynodedig ar gael i ffwrdd o'r wardiau.

Gwelsom fod gan bob ward fwrdd 'Pwy yw pwy' a oedd yn cynnwys llun a rhywfaint o wybodaeth am bob aelod o'r staff sy'n gweithio ar y ward. At hynny, roedd y disgwyliadau o ran ymddygiad y cleifion hefyd wedi'u nodi ar fyrddau.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael llonydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau aml-ddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o gyfranogiad aml-ddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn fanwl iawn ac wedi'u personoli. Roedd hyn yn helpu'r ysbyty i allu rhoi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau gweithredol ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty pan oeddent yn barod i gael eu rhyddhau. Gwnaethom gadarnhau bod penderfyniadau mewn perthynas â rhyddhau cleifion ac mewn perthynas â lleoliadau yn y dyfodol yn cael eu trafod â'r cleifion, a'u perthnasau lle y bo'n briodol, fel rhan o'u hadolygiadau gan y tîm amlddisgyblaethol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol yn ymwneud â chleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried. Gwelsom fod gan yr ysbyty bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a oedd ar gael i helpu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth y cleifion yn cael eu parchu.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn rhoi strwythur i ddelio â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol yn cael ei benodi i ymchwilio i gwynion a bod camau'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwyno'r darparwr cofrestredig i sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol ac anffurfiol a chadarnhawyd bod y sefydliad wedi ymdrin â nhw yn unol â'i bolisi cwynion.

Mae'r ysbyty'n llunio cylchlythyr misol sy'n cynnwys eitemau wedi'u hysgrifennu gan y cleifion. Cawsom gopiâu o'r cylchlythyr a oedd yn cynnwys lluniau o gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, digwyddiadau codi arian a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Roedd yr ysbyty wedi gwneud gwelliannau i'r cylchlythyr ers yr arolygiad diwethaf ac roedd bellach yn llunio cylchlythyrau misol a oedd yn cael eu rhannu â byrddau iechyd y GIG yng Nghymru a Lloegr.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan yr ysbyty brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i deilwra at gleifion unigol wedi'i ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol, mewn perthynas â chynllunio gofal ac arferion yr ysbyty neu'r ward.

Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o welliannau parhaus yn cael eu gwneud ym mhob rhan o'r ysbyty. Ar hyn o bryd, mae uned diogelwch canolig newydd wrthi'n cael ei hadeiladu ar dir yr ysbyty a disgwylir iddi agor ym mis Rhagfyr 2024. Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynglŷn â sut y caiff y wardiau eraill eu defnyddio ar ôl i'r uned newydd agor ac, o ganlyniad i hynny, roedd ôl traul ar rai o'r wardiau eraill ac roeddent yn ymddangos fel pe bai angen eu diweddarau.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol ac yn cario setiau radio y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs hefyd ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol a gynhelir gan y rheolwr yn yr unedau.

Roedd y cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio bob wythnos; roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Roedd gan yr ysbyty gynllun parhad busnes i'w ddilyn pe bai digwyddiad mawr yn yr ysbyty. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau fel tân, colli cyflenwad dŵr a thrydan a thywydd difrifol.

Roedd yr holl bolisiâu diogelwch tân yn gyfredol ac roedd yr holl asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y map cyfredol ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân a oedd yn cael ei arddangos ar Ward Awen wedi cael ei ddiweddarau ers i'r ward gael ei had-drefnu.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y map ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân ar Ward Awen yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu cynllun newydd y ward.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd system o drefniadau archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn ceisio nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle bo angen.

Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau a gwelwyd bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau glanhau yn effeithiol. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau atal a rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn monitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ymhlith y staff ar gyfer hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol yn uchel, sef 95.30 y cant.

Maeth

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol. Roedd deietegydd yn gweithio yn yr ysbyty i helpu'r staff a'r cleifion â gofynion maeth.

Roedd yr ysbyty wedi newid y ffordd y darperir prydau bwyd i gleifion ac nid oedd prydau bwyd yn cael eu paratoi yn yr ysbyty mwyach. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod angen gwella'r prydau bwyd. Roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r holiadur i gleifion gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn anfodlon ar y ffordd y mae'r bwyd yn cael ei baratoi a'r diffyg amrywiaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod y dewis o fwyd yn llawer gwell pan oedd y bwyd yn cael ei goginio ar y safle.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r prydau bwyd a ddarperir ar hyn o bryd a'r dewis o fwyd sydd ar gael i'r cleifion a gwneud gwelliannau.

Roedd yr ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, roedd meddyginiaethau'n cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Fodd bynnag, ar noson gyntaf yr arolygiad, cafodd meddyginiaeth ei gadael heb oruchwyliaeth yn yr ystafell glinigol dan glo. Tynnwyd sylw cyfarwyddwr yr ysbyty at y mater hwn, ac ymdriniwyd ag ef ar unwaith.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r polisi rheoli meddyginiaethau.

Roedd tystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Roedd y fferyllfa yn rhoi mewnbwn rheolaidd ac yn cynnal archwiliad bob wythnos a oedd yn hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau ar y ward.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom fod y dyddiad ar y polisi meddyginiaeth yn un o'r ystafelloedd clinigol wedi mynd heibio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiâu yn yr ystafelloedd clinigol yn gyfredol.

Roedd yn gadarnhaol gweld cynlluniau gofal hunanfeddyginiaeth ar waith ac roedd tri chlaf ar un ward yn gyfrifol am ofalu am eu meddyginiaeth eu hunain. Roedd hyn yn gweithio'n dda ac roedd tystiolaeth i gadarnhau bod y cleifion yn rhoi pob meddyginiaeth iddyn nhw eu hunain fel y'i rhagnodwyd. Fodd bynnag, ar Ward Awen nid oedd unrhyw gynllun gofal ar waith ar gyfer un claf a oedd yn rhoi meddyginiaeth iddo'i hun.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal hunanfeddyginiaeth ar waith i gleifion sy'n rhoi meddyginiaeth iddyn nhw eu hunain.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan yr ysbyty bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd tîm o weithwyr cymdeithasol a oedd yn gweithio yn yr ysbyty ar gael i staff yr ysbyty, ac roedd gweithdrefnau diogelu ar gael ar y fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, a bod achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Wrth sgwrsio â'r staff, roedd yn amlwg bod y gweithwyr cymdeithasol wedi meithrin cydberthynas waith agos â'r awdurdod lleol. Mae'r dull gweithredu cydweithredol hwn yn rhan allweddol o brosesau diogelu effeithiol a dangosodd fod yr ysbyty yn rhoi cryn bwyslais ar ddiogelu eu cleifion.

Nodwyd bod y 'cynllun dyletswyddau' gweithwyr cymdeithasol, lle roedd gweithiwr cymdeithasol enwebedig yn cael ei ddefnyddio i sgrinio atgyfeiriadau a chofnodi penderfyniadau ynghylch pam roedd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r awdurdod lleol ai peidio, yn arfer canmoladwy yn ystod yr arolygiad.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o gyfarpar adfywio. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu.

Gwelsom fod y bag cyffuriau brys ar ben annibendod yn y swyddfa nyrsio fach ar Ward Awen, ac nad oedd unrhyw arwyddion i ddangos ble roedd y feddyginiaeth frys yn cael ei chadw. Gallai'r naill fater a'r llall effeithio ar staff cyfarwydd ac anghyfarwydd pe bai angen y cyfarpar hwn mewn argyfwng.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar brys yn cael ei storio mewn lle hygyrch a chyfarwydd i'r staff ac yn unol â'r ffordd y mae wardiau eraill yn storio'r cyfarpar hwn.

Roedd silindrau ocsigen ar gael ar Ward Awen ac roeddent yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd yr allwedd a oedd yn cael ei defnyddio i agor y falf ar goll ac roedd y tiwbiau a'r masg eisoes wedi'u cysylltu â'r silindr. Roedd silindrau ocsigen cwbl weithredol ar gael ar wardiau eraill y gallai Ward Awen eu defnyddio mewn argyfwng.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod allweddi cyfarpar priodol ar gael ar gyfer y silindrau ocsigen a bod tiwbiau a masgiau yn cael eu defnyddio yn unol â'r canllawiau ar roi a chyflenwi ocsigen yn ddiogel.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Caiff yr holl ddata yn ymwneud â digwyddiadau

eu casglu a chaiff dadansoddiad manwl o ddigwyddiadau ei baratoi a'i ddadansoddi yn ystod cyfarfodydd llywodraethu.

Cadarnhaodd tystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad fod ymyriadau corfforol yn cael eu defnyddio, ac roedd yn gadarnhaol gweld nad oedd unrhyw achosion o atal wedi'u cofnodi ar Ward Treowen mewn cyfnod o ddwy flynedd. Roedd hyn yn dangos bod y model gofal lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad therapiwtig rhwng y staff a'r cleifion a oedd yn creu awyrgylch hamddenol ar y ward.

Pan fydd rhywun yn cael ei atal yn gorfforol, caiff yr holl waith papur a gwblhawyd ei wirio a'i oruchwylio'n gadarn a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff. Gwelodd y tîm arolygu achosion cadarnhaol o ailgyfeirio a thawelu ymddygiadau anodd, a hynny mewn modd parchus a chefnogol iawn.

Roedd y staff yn cwblhau'r siartiau arsylwi yn unol â'r canllawiau. At hynny, roedd rheolwyr y wardiau yn monitro ac yn archwilio'r broses o gwblhau siartiau arsylwi. Roedd hyn yn faes a oedd wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf.

Roedd ystafelloedd gofal dwys ar gael ar bob ward ac roeddent yn cael eu defnyddio i reoli cyfnodau byr o ymddygiad ymosodol ac aflonyddgar gan y cleifion. Roedd y dogfennau ar ddefnyddio ystafelloedd gofal dwys yn gadarn ac yn cydymffurfio â'r adolygiadau a nodwyd yn y Cod. Gwelsom dystiolaeth bod strategaethau ymadael ar waith gyda rhai cleifion yn gallu pennu eu nodau eu hunain i'w helpu i gael eu hailintegreiddio i amgylchedd y brif ward.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Yn ystod ein trafodaethau â chyfarwyddwr yr ysbyty, rhoddodd nifer o enghreifftiau lle roedd yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn ystyried datblygu agweddau ar yr ysbyty.

Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o welliannau wrthi'n cael eu gwneud i safle'r ysbyty, fel adeiladu'r uned newydd, a oedd wedi peri heriau ychwanegol i'r ysbyty. Roedd yn amlwg bod cyfarwyddwr a dirprwy gyfarwyddwr yr ysbyty wedi treulio cryn dipyn o amser yn ystyried yr effaith ar y cleifion er mwyn sicrhau nad oedd y gwaith adeiladu nac ymwelwyr â'r safle yn cael effaith andwyol ar y cleifion.

Roedd rheolwr y ward ar Ward Treowen hefyd wedi llunio gweithdrefn weithredu safonol ac asesiad risg yn ddiweddar er mwyn i rai cleifion gael mynediad heb oruchwyliaeth i'r llawr cyntaf ar Ward Treowen. Roedd hyn yn dangos bod yr ysbyty yn defnyddio'r arferion lleiaf cyfyngol i hyrwyddo annibyniaeth ymhlith y grŵp cleifion.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol wedi'u datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth yr oedd modd adnabod cleifion ohoni yn yr ystafell ymwelwyr dan glo ar Ward Awen. Tynnwyd sylw cyfarwyddwr yr ysbyty at y mater hwn a chymerwyd camau ar unwaith i'w symud o'r ystafell ymwelwyr.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod cleifion ohoni ei gadael heb oruchwyliaeth mewn man lle nad yw'n ddiogel.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn drefnus iawn a oedd yn ei gwneud yn hawdd symud drwy'r adrannau. Roedd yn amlwg bod y staff nyrsio a'r gweithwyr proffesiynol yn y tîm amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y claf a'i ofal.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf, a gwelsom fod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016).

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw.

Roedd cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu storio'n briodol, yn drefnus ac yn cael eu cynnal yn dda, ac roedd yn hawdd iawn eu deall. Roedd gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn defnyddio system effeithlon ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod asesiadau o alluedd meddyliol wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf a bod modd cael gafael arnynt yn hawdd mewn nodiadau cleifion mewnol.

Wrth edrych ar y nodiadau, gwelsom fod cofnod bod y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn wedi ymgynghori â'r Ymgynghoreion Statudol, ond nid oedd unrhyw fformat penodol i gofnodi rhesymeg yr Ymgynghoreion dros y penderfyniad a wnaed. Gwnaethom argymhell y byddai'n arfer da datblygu ffurflen benodol er mwyn i ymgynghoreion statudol gofnodi penderfyniadau ar ôl trafod â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Dylai'r darparwr cofrestredig ddatblygu ffurflen benodol er mwyn i ymgynghoreion statudol gofnodi penderfyniadau ar ôl trafod â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Nid oedd y Codau Ymarfer ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gael ar rai o'r wardiau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod camau wedi'u cymryd i unioni hyn yn ystod yr arolygiad a bod copiau wedi'u darparu ar bob ward.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystiolaeth fanwl o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal, gyda chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a gwasanaethau partner perthnasol yn y gymuned leol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu naw ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda.

Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cynlluniau gofal yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal; roedd hyn yn helpu i gefnogi'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd cofnod un claf ar Ward Teilo yn cynnwys fformiwleiddiad risg. Fodd bynnag, roedd y fformiwleiddiad risg hwn yn ymwneud â chlaf gwahanol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ymwneud â'r claf cywir.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu. Fodd bynnag, nid oedd cofnod un claf ar Ward Awen yn cynnwys unrhyw Gynllun Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ar gyfer y claf er bod tystiolaeth yn nodiadau'r claf fod ei ymddygiad yn gwaethygu ac yn newid.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol cleifion yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ymddygiad y cleifion.

Gwelsom fod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd enghreifftiau o ddogfennau hawdd eu deall yn ffeiliau'r cleifion ac roedd pob un o'r rhain wedi'i deilwra at yr unigolyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur gan y staff.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

"Mwy o hyfforddiant ar Anableddau Dysgu"

"Byddwn yn rhoi aelod o'r teulu yn Llys Llanarth pe bai angen"

"Rwy'n credu ein bod yn darparu gwasanaeth da iawn yn Llanarth. Rwy'n mwynhau gweithio yma yn fawr. Rwy'n teimlo fy mod yn cael llawer o gymorth ac fy mod yn gallu rhannu syniadau a datblygu yn fy rôl".

Roedd yn gadarnhaol gweld bod pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau a'u bod yn hyderus ac yn gwybod sut i godi pryderon am ymarfer anniogel.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Yn ystod yr arolygiad, cawsom sicrwydd gan yr uwch-reolwyr fod archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal a chafodd y tîm dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed. Darparwyd y dogfennau hyn yn brydlon i'r tîm, gan ddangos bod y systemau a'r strwythurau cywir ar waith.

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty a'r cyfarwyddwr clinigol yn cynnig arweinyddiaeth ymrwymedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau aml-ddisgyblaethol a grŵp o staff ymroddedig ar y wardiau. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd yn amlwg bod y staff yn anelu at ddarparu lefelau uchel o ofal i'r grwpiau cleifion er mwyn eu helpu i wella'n gyflymach a lleihau hyd eu harhosiad yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod gan gyfarwyddwr yr ysbyty, y dirprwy gyfarwyddwr a rheolwyr y wardiau ddull arwain cefnogol a'u bod yn hawdd mynd atynt, a chadarnhawyd hyn yn ystod cyfweiliadau â'r staff hefyd. Grŵp cydlynol o

arweinwyr oedd y tîm, a gwelsom drwy gynnal cyfweiliadau â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r staff a'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn rhoi strwythur i ddelio â phob cwyn yn yr ysbyty.

Gwelsom sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol a oedd yn dangos bod person annibynnol yn cael ei benodi i ymchwilio i bob cwyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwyno'r sefydliad er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol yn yr ysbyty.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cafwyd geirdaon ar gyfer y staff cyn iddynt gael eu cyflogi. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom sicrwydd fod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith er mwyn i'r staff allu mynegi pryderon. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael hefyd, ac roedd y staff yn canmol y cymorth lles a oedd yn cael ei ddarparu gan y tîm rheoli. Roedd systemau da ar waith i gefnogi lles y staff. Dywedwyd wrthym am y rhaglenni cymorth sydd ar gael gan Priory Healthcare i gynorthwyo'r staff gyda llawer o agweddau ar eu gwaith a'u bywyd personol, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela annibynnol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff eu bod yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd.

Roedd y lefelau staffio yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion ar y wardiau ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym mai prin y mae staff asiantaeth yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, pan fydd prinder staff, bydd yr ysbyty yn ceisio defnyddio staff asiantaeth rheolaidd sy'n gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty ac â'r grwpiau cleifion.

Clywsom hefyd am y mentrau recriwtio a oedd ar waith ar y pryd i ddenu staff newydd, am fod nifer o swyddi gwag ar gyfer nyrsys staff yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol gweld bod yr ysbyty yn cymryd camau i geisio llenwi'r swyddi gwag.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty hefyd yn cynnal cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd a diogelwch ar wahân y tu allan i'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal y rhain fel cyfarfodydd annibynnol. Roedd gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn hefyd yn cael ei rhannu â'r grŵp staffio ac yn parhau i fod yn eitemau ar agenda cyfarfodydd o fewn llywodraethu clinigol.

Gwnaethom edrych ar yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff yr ysbyty a gwelsom fod y cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddiant ar waith er mwyn i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant mewn modd amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion am gydymffurfiaeth aelodau unigol o'r staff.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedodd rhai o'r staff wrthym y byddai hyfforddiant ar Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig a hyfforddiant arall ar niwroamrywiaeth yn fuddiol er mwyn eu helpu i gefnogi cleifion ag anghenion amrywiol yn well.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar sut i ymdrin â chleifion niwroamrywiol.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr ysbyty, drwy gydol yr arolygiad, yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Llys Llanarth

Dyddiad yr arolygiad: 13 - 15 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad.					
2.					
3.					
4.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Llys Llanarth

Dyddiad yr arolygiad: 13 - 15 Mai 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar yr hysbysfyrddau ar rai o'r wardiau yn gyfredol, a dylid cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr hysbysfyrddau i gleifion yn gyfredol.	Edrychwyd ar yr hysbysfyrddau ar bob ward ar unwaith ar ôl yr arolygiad er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Caiff yr hysbysfyrddau hyn eu hadolygu yn ystod archwiliadau misol o'r safle. Mae'r safle wrthi'n dylunio hysbysfyrddau gwybodaeth wedi'u diweddarau ar gyfer y	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	Wedi'i gwblhau

				wardiau, wedi'u cydgyhyrchu â'r cleifion.		
2.	Nid oedd y map cyfredol ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân a oedd yn cael ei arddangos ar Ward Awen wedi cael ei ddiweddarau ers i'r ward gael ei had-drefnu.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y map ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân ar Ward Awen yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu cynllun newydd y ward.		Mae'r cynllun gwagio wedi cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r addasiadau i amgylchedd Ward Awen.	Ross Morris yn dirprwyo i Alexander Hore	Wedi'i gwblhau
3.	Dywedodd y cleifion wrthym fod angen gwella'r prydau bwyd. Roedd hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r holiadur i gleifion gyda'r rhan fwyaf o'r cleifion yn anfodlon ar y ffordd y mae'r bwyd yn cael ei baratoi a'r diffyg amrywiaeth.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r prydau bwyd a ddarperir ar hyn o bryd a'r dewis o fwyd sydd ar gael i'r cleifion a gwneud gwelliannau.		Caiff y ddarpariaeth arlwyo yn Llanarth ei hadolygu gyda bwrdd gweithredol ar gontract allanol er mwyn sicrhau bod prydau bwyd yn bodloni gofynion y cleifion, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth a boddhad. Mae cynllun gweithredu ar waith i unioni meysydd sy'n destun pryder a nodwyd o arolygon cleifion.	Ross Morris yn dirprwyo i Alexander Hore	24 Awst
4.	Ar noson gyntaf yr arolygiad, cafodd meddyginiaeth ei gadael	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff		Bydd Rheolwyr Nos y Safle a Rheolwyr y Wardiau yn cynnal	Ross Morris yn dirprwyo i	24 Awst

	heb oruchwyliaeth yn yr ystafell glinigol dan glo.	yn cydymffurfio â'r polisi rheoli meddyginiaethau.		hapwiriadau rheolaidd yn ystod rowndiau meddyginiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi rheoli meddyginiaethau.	Treeve Brooks	
5.	Roedd y dyddiad ar y polisiau meddyginiaeth yn un o'r ystafelloedd clinigol wedi mynd heibio.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau yn yr ystafell glinigol yn gyfredol.		Mae'r polisi meddyginiaeth wedi'i ddisodli gan y fersiwn wedi'i diweddarau. Caiff polisiau eu gwirio yn ystod hapwiriadau clinigol misol a drefnwyd.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Gorffennaf
6.	Ar Ward Awen nid oedd unrhyw gynllun gofal ar waith ar gyfer un claf a oedd yn rhoi meddyginiaeth iddo'i hun.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sichau bod cynlluniau gofal hunanfeddyginiaeth ar waith i gleifion sy'n rhoi meddyginiaeth iddyn nhw eu hunain.		Caiff archwiliad ei gynnal o gynllun gofal pob claf sy'n rhoi meddyginiaeth iddo'i hun.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Awst
7.	Roedd y bag cyffuriau brys ar ben annibendod yn y swyddfa nyrsio fach.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar brys yn cael ei storio mewn lle hygrych a chyfarwydd i'r staff ac yn unol â'r ffordd y mae wardiau eraill yn storio'r cyfarpar hwn.		Caiff y swyddfa nyrsio ei thacluso er mwyn sicrhau bod cyfarpar brys yn hygrych. Bydd y gwiriad ansawdd wythnosol yn cynnwys hygrychedd	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Gorffennaf

				meddyginiaeth frys er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.		
8.	Nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos ble roedd y feddyginiaeth frys yn cael ei chadw.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion i ddangos ble mae'r feddyginiaeth frys yn cael ei chadw.		Mae arwyddion bellach wedi'u gosod sy'n dangos yn glir ble mae'r feddyginiaeth frys yn cael ei chadw.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Gorffennaf
9.	Roedd silindrau ocsigen ar gael ar Ward Awen ac roeddent yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd yr allwedd a oedd yn cael ei defnyddio i agor y falf ar goll ac roedd y tiwbiau a'r masg eisoes wedi'u cysylltu â'r silindr.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod allwedd cyfarpar priodol ar gael ar gyfer y silindrau ocsigen a bod tiwbiau a masgiau yn cael eu defnyddio yn unol â'r canllawiau ar roi a chyflenwi ocsigen yn ddiogel.		Mae allwedd newydd ar gael. Caiff masgiau a thiwbiau eu harchwilio yn ystod hapwiriadau misol.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Gorffennaf
10.	Roed gwybodaeth yr oedd modd adnabod cleifion ohoni yn yr ystafell ymwelwyr dan glo ar Ward Awen.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod cleifion ohoni ei gadael heb oruchwyliaeth mewn man lle nad yw'n ddiogel.		Cafodd gwybodaeth yr oedd modd adnabod cleifion ohoni ei symud o'r ystafell ymwelwyr yn ystod yr arolygiad. Atgoffwyd staff ym mhob rhan o'r safle o egwyddorion cywir y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y mae'n rhaid i ni eu dilyn.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	Gorffennaf 24
11.	Nid oedd unrhyw fformat penodol i gofnodi				Ross Morris yn dirprwyo i	

	rhesymeg yr Ymgynghoreion dros y penderfyniad a wnaed.	Dylai'r darparwr cofrestredig ddatblygu ffurflen benodol y gallai ymgynghoreion statudol gofnodi penderfyniadau arni ar ôl trafod â'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.		Mae ffurflen wedi'i llunio gan y safle er mwyn sicrhau y gall y rhesymeg dros benderfyniadau gael ei dogfennu'n glir a'i storio yn Carenotes.	Treeve Brooks	24 Awst
12.	Roedd cofnod un claf ar Ward Teilo yn cynnwys fformiwleiddiad risg. Fodd bynnag, roedd y fformiwleiddiad risg hwn yn ymwneud â chlaf gwahanol.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ymwneud â'r claf cywir.		Caiff archwiliad ei gwblhau ym mhob rhan o'r safle er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cynnwys y wybodaeth gywir.	Ross Morris yn dirprwyo i Treeve Brooks	24 Awst
13.	Nid oedd cofnod un claf ar Ward Awen yn cynnwys unrhyw Gynllun Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol ar gyfer y claf er bod tystiolaeth yn nodiadau'r claf fod ei ymddygiad yn gwaethygu ac yn newid.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod Cynlluniau Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol cleifion yn gyfredol a'u bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ymddygiad y cleifion.		Caiff archwiliad ei gwblhau ym mhob rhan o'r safle er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol yn amserol, yn gywir ac ar waith ar gyfer pob claf. Mae Cynlluniau Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol wrthi'n cael eu hadolygu ym mhob rhan o'r safle ar hyn o bryd.	Ross Morris yn dirprwyo i Margaret Davies	24 Awst

14.	Dyweddod y staff wrthym y byddai hyfforddiant ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a hyfforddiant arall ar niwroamrywiaeth yn fuddiol er mwyn eu helpu i gefnogi cleifion ag anghenion amrywiol yn well			Mae'r safle wrthi'n cydgysylltu â'r arbenigwr ym maes Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth ar gyfer y Priory er mwyn trefnu'r hyfforddiant sydd ei angen.	Ross Morris yn dirprwyo i Lisa Green	24 Awst
-----	---	--	--	---	---	---------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ross Morris

Swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 09.07.2024